Site Stakeholder Group

SAFLE TRAWSFYNYDD

COFNODION DEGFED CYFARFOD
GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE
A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDAU A CHYNEFINO
DDYDD LLUN 1 MEHEFIN 2009

YN BRESENNOL

Cyng J Isgoed Williams	Cadeirydd, Cyngor Cymuned Trawsfynydd

Safle Trawsfynydd

Dr Phil J Sprague	Cyfarwyddwr y Safle
Mrs Edwina Winter	Dirprwy Gyfarwyddwr
Mr Mark Stubbs	Rheolwr Peiriannau
Mr Robin S Ward	Ffisegydd Iechyd y Safle
Mr Raymond Parry	SJC
Mr Richard Foxhall	Swyddog Cyfathrebu
Mr Andy McAteer	Magnox North – Maentwrog
Mr Eurwyn Owen	Cydlynydd Amgylcheddol
Mr Greg Gibson	Rheolwr EHS&Q
Mr Jeston Homfray	Magnox North - Trawsfynydd
Mrs Karen Fell	Magnox North - Trawsfynydd
Mrs Debbie Jones	Magnox North - Trawsfynydd
Mrs Karen Hughes	Ysgrifenyddiaeth

Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear

Mr Glenn Vaughan	Rheolwr Rhaglen y Safle
Ms Deborah Ward	

Cyngor Gwynedd

Mr Tom G Ellis
Mr Dewi Lewis
Mr Emyr Searell Jones

Cynghorau Cymuned a Thref

Cyng John Ll Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Cyng Beryl W Williams	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyng D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal W Williams	Traws-Newid
Mr Islwyn Morris	Deudraeth Cyf
Mrs Gwen Pettifor	WI
Mrs Jean Powell Jones	CIG (CHC)

Arsylwyr

Mr Alan Hall	Dwr Cymru
Mr Les Davies	Prif Arolygydd yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear
Mr Andrew Fairhurst	Asiantaeth yr Amgylchedd
Mr Steve Howard	Asiantaeth yr Amgylchedd
Mrs Catrin Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol

Mr Daniel Gould	Magnox North
Mr Andrew Watt	Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru
Mr Michael Owen	Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
Sgt Arthur Jones	Heddlu Gogledd Cymru
PC Gareth Griffiths	Heddlu Gogledd Cymru

Rhai nad ydynt yn aelodau

Mr Gwynfor Owen	Cymen
Mr Sion Roberts	Prifysgol Bangor
Mr Iwan Jones	Prifysgol Bangor

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a bu iddo gyflwyno Deborah Ward o'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a Dan Gould Ymgynghorydd Cyfathrebu Rhanbarthol Magnox North.

2. **<u>Ymddiheuriadau</u>**

Mr David Hinchliffe	Magnox North
Arolygydd Meirion Ellis	Heddlu Gogledd Cymru
Mr Dylan Griffiths	Cyngor Gwynedd
Cyng Gwilym Euros Roberts	Cyngor Gwynedd
Mr John Idris Jones	Magnox North
Arglwydd Dafydd Elis Thomas	AC
Mr David Finchett	Magnox North
Mr Jim Crocker	Magnox South
Mr Stuart Conney	Asiantaeth Safonau Bwyd
Ms Shirley Huws	Cyngor Gwynedd
Mr Caerwyn Roberts	Cyngor Gwynedd
Mr Morris Jones	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth

3. **<u>Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 1 Rhagfyr 2008</u>**

3.1 Cadarnhawyd y cofnodion a'u derbyn fel cofnod cywir o'r trafodion.

4. **<u>Materion yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd 1 Rhagfyr 2008</u>**

4.1 Cofnod 5.4 – Gofynnodd y Cadeirydd os oedd sylwadau ar y cynllun busnes drafft wedi eu hanfon i unai Richard Foxhall neu Karen Hughes. Cadarnhawyd nad oedd sylwadau wedi eu derbyn. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon sylwadau yn pwysleisio bod angen yr arian a nodwyd o fewn y cynllun busnes i sicrhau nad yw'r gwaith dadgomisiynu yn cael ei lesteirio. Hefyd dylid cadw'r cysylltiad rheilffordd. 'Roedd ateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau bod yr ADN wedi derbyn y sylwadau.

Cofnod 13.2 – Trefniadau ar gyfer ymweliad aelodau'r GRhS i'r Storfa Gwastraff Ganolradd. Cadarnhawyd bod gwahoddiadau wedi eu hanfon allan ers diwedd yr wythnos i drefnu ymweliad ar gyfer y 10 Mehefin 2009. Cytunwyd trafod y mater ymhellach ar ddiwedd y cyfarfod.

5. **<u>Anerchiad y Cadeirydd</u>**

5.1 Adroddodd y Cadeirydd bod cysylltiad agos wedi ei gadw rhyngddo ef a'r Safle ac mae yn derbyn adroddiadau gan Dr Phil Sprague ar gynnydd y gwaith. Bydd y Cadeirydd yn mynychu cyfarfodydd o'r GRhS a GRhC ym Maenceinion yn ystod mis Mehefin 2009.

6. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

6.1 Bu i Dr Phil Sprague, trwy gyfres o sleidiau, adrodd ar gynnydd y gwaith ar y Safle.

6.2 Diogelwch
Dyddiau ers Damwain Colli Amser –1001
Digwyddiadau Cofnodadwy - 0
Cyfradd Achosion Diwrnodau i Ffwrdd - 0

6.3 Prosiectau Diweddaraf

6.3.1 Storfa Gwastraff Lefel Canolradd – Cadarnhaodd Dr Phil Sprague y bydd yn bosib i aelodau'r GRhS ymweld a'r Storfa Gwastraff Lefel Canolradd ar y 10 Mehefin 2009. Derbyniwyd peiriant llwytho newydd ar y Safle ym mis Mawrth 2009 a bydd y pecynnau llawn yn cael eu trosglwyddo i'r Storfa yn ystod y ddau fis nesaf, unwaith y bydd cymeradwyaeth yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear wedi ei dderbyn.

6.3.2 Atgyweiriadau Toeau yr Adweithyddion – y gwaith wedi ei gwblhau.

6.3.3. Gwaith Gostwng Uchder :

6.3.4 Tynnu'r Bwyleri – y gwaith wedi ei gwblhau. Mae'r craen codi bwyleri wedi ei werthu i'r Philippines a bydd yr arian sydd yn deillio o'r gwerthiant yn mynd i'r ADN.

6.3.5 Tô Capio – Mae'r gwaith yn mynd rhagddo gydag Adweithydd 2 wedi ei gwblhau a dylai'r gwaith a'r Adweithydd 1 ddechrau o fewn y ddau fis nesaf.

6.3.6 Adennill Cydrannau Egnïoledig Amrywiol – Mae'r cydrannau metal mwyaf wedi eu growtio ac yn barod i'w trosglwyddo i'r Storfa Gwastraff Lefel Canolradd. Mae'r gwaith o lanhau yr eitemau llai yn mynd rhagddo gyda'r growtio yn barod i'w wneud a bydd y llwch yn cael ei lanhau a'i growtio yn ystod y tri mis nesaf. Dyma'r ffrwd gweddillion gyntaf i'w hadennill drwy Magnox North gyfan.

6.3.7 Adennill Malurion Rhodenni Tanwydd – Y gwaith yn mynd rhagddo gyda 9 bocs wedi ei gwblhau a bydd 5 arall yn cael eu cwblhau eleni. Mae'n bosib y bydd y prosiect yma yn yn cael ei wneud yn gynt.

6.3.8 Brasnaddu Pyllau – Mae'r prosiect yn symud ymlaen yn dda iawn gyda 25% o'r gwaith wedi ei gwblhau ac mae 100 o gasgenni gwastraff llawn wedi eu llenwi ac wedi eu hanfon i Cumbria.

6.3.9 Cymdeithasol-economaidd
Cyflogaeth

Cyfanswm cyflogaeth	**539**
o fewn 15 milltir	174
o fewn 30 milltir	104
o fewn 50 milltir	79
eraill	183
Cyfanswm o fewn cod post LL	**380**

(nid yw'r holl weithwyr asiantaeth a chontractwyr yn rhai llawn amser)
(mae rhifau'r contractwyr yn codi a gostwng fel mae prosiectau yn dechrau a gorffen)

Cymorth cymunedol
Cymorth ariannol i fudiadau lleol a digwyddiadau – cyllid o £10,000 (amcan hyd at ddiwedd Mawrth 2010).
Mae cyllideb gyfyngedig hyd at £5,000 ar gyfer prosiectau adfywio sydd o fewn canllawiau'r ADN – rhaid i geisiadau am fwy o arian gael eu cyflwyno yn uniongyrchol i'r ADN trwy'r Safle.
Cymorth ariannol i Eisteddfod Genedlaethol y Bala 2009 - £50,000 (wedi ei dalu)

Cymorth Addysgol
Mae'r Rhaglen Cymorth Addysgol yn parhau ac mae dros 1,000 o ddisgyblion ysgolion cynradd a dros 200 o ddisgyblion ysgolion uwchradd wedi mynychu gwahanol weithgareddau yn y Ganolfan Gynadleddau a Chynefino. Hefyd mae dros 50% o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi derbyn cymorth o'r Safle. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys y cwis ysgolion cynradd blynyddol, rhaglenni profiad gwaith, ymweliadau ysgolion, gwyl wyddonol blynyddol, cystadleuaeth K'nex a cystadleuaeth pont ICE.

Cymorth i Elusennau Lleol
Bu i aelodau staff y Safle drefnu diwrnod golff elusennol ar ddiwedd mis Mai a gwnaed elw o £4,000 tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Hefyd mae Pwyllgor Elusennau Safle Trawsfynydd sydd yn cefnogi elusennau lleol wedi ei sefydlu ar y Safle.

6.4 Strategaeth Economaidd-Gymdeithasol Trawsfynydd
Mae cyfarfodydd wedi eu cynnal rhwng y Cynghorau Cymuned a Thref sydd yn aelodau o'r GRhS ynghyd a Magnox North, ADN, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Cyngor Gwynedd i drafod y posibilrwydd o sefydlu endid i reoli tir ac asedau'r ADN yn Nhrawsfynydd.
Mae'r weledigaeth yn ceisio darparu gweledigaeth hir-dymor ar gyfer yr ardal a fydd o gymorth i hoelio cefnogaeth economaidd-gymdeithasol yn yr ardal, a chaniatáu i'r gefnogaeth honno gael ei defnyddio i hwyluso datblygiad cymuned gynaliadwy yn y tymor hwy. Pan fydd gweithgareddau ar Safle Dadgomisiynu Trawsfynydd yn dod i ben ar ddiwedd cam paratoadau Gofal a Chynnal a Chadw y broses ddadgomisiynu, gobeithi'r creu amgylchedd cynaliadwy lle bydd swyddi'n cael eu creu er mwyn sicrhau, os bydd un sector yn dirywio, y bydd sector arall yn ffynnu er mwyn cydbwyso hynny. Bydd y gwaith wedi esgor ar greu cyfleoedd gwaith newydd yn ardal Trawsfynydd – Penrhyndeudraeth – Blaenau Ffestiniog yn ardal Gogledd Meirionnydd sydd wedi'i dynodi'n brif ardal teithio i'r gwaith y safle.
Mae amcanion y cynllun i ymestyn cynaliadwyedd y gymuned yn golygu mynd i'r afael â thri maes penodol:
Datblygu Busnes – Defnyddio adnoddau i gefnogi twf y diwydiant twristiaeth lleol, gan gynnwys llwybrau beicio mynydd a datblygu mudiad cymunedol ei seiliau i ddatblygu, mewn ffordd sensitif, yr ardal yng nghyffiniau'r llyn ar gyfer gweithgareddau sy'n gydnaws â'r amgylchedd lleol.
Sgiliau ac Ymchwil – Cefnogi gwaith yr ysgolion a cholegau lleol i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau a meithrin y diwylliant entrepreneuraidd.
Seilwaith – Defnyddio'r safle i ddatblygu busnesau bychan, e.e. rheoli gwastraff, darparu hyfforddiant ar gyfer technegau achub ynghyd a gwella'r cysylltiad gyda Prifysgolion Cymru i ddatblygu busnesau bychan.
Bydd y weledigaeth a'r pwyntiau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r amcanion wedi'u cyflawni erbyn y bydd Trawsfynydd yn dechrau'r cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw. Fe'i hwylusir gan Magnox North, yr ADN ac Energy Solutions yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y bydd gwaddol dymor hwy yn cael ei gadael yn yr ardal a fydd yn cefnogi darparu cyfleoedd gwaith a thai i bobl sy'n byw yn yr ardal ac a fydd yn ategu ac yn cefnogi diwylliant, hanes ac iaith yr ardal. Gall hyn gynnwys hwyluso datblygiad ceisiadau am arian gan ffynonellau perthnasol. Defnyddir y weledigaeth hon fel sail i benderfyniadau ynglŷn â phrosiectau ategol yn yr ardal.

6.5 Cynllun Busnes ADN
Adroddwyd bod y cyllid ar gyfer y Safle am y flwyddyn 2009-10 yn £50m ac yn ystod 2009-2012 bydd y prosiectau canlynol yn symud ymlaen:
Symud rhai o Gydrannau'r Prif Gylched – gorffen
Adennill Cydrannau Egnïoledig Amrywiol – gorffen
Comisiynu y Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd a trosglwyddo'r pecynnau i ddechrau ar ddiwedd yr haf 2009.
Gwaith Gostwng Uchder – i ddechrau.

6.6 Cyng. Beryl W Williams - Mae adennill y Malurion Rhodenni Tanwydd (MRT) yn rhan bwysig o'r broses dadgomisiynu, eto nid oes son am hyn yn ystod 2009-2012.
Dr Phil Sprague – 'Rwyf yn cytuno ei fod yn bwysig ac mae 15% o'r Malurion Rhodenni Tanwydd wedi ei adennill yng nghladdgell y De. Bydd peiriant newydd yn cael ei osod yn nghladdgell y Gogledd erbyn 2012.

6.7 Cyng Tom G Ellis – Byddwch yn cadw'r gwastraff ar y safle yn y Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd – pam na fydd pobl yn mynd iddi wedyn?
Dr Phil Sprague – Bydd lefelau o ymbelydredd yn yr adeilad a gan fod diogelwch yn holl bwysig, pam fyddem yn rhoi bobl yna pan nad oes angen.

6.8 Cyng Tom G Ellis – Felly bydd lefelau o ymbelydredd yn y Storfa.
Dr Phil Sprague – Yn amlwg bydd mwy na 0 ond unwaith bydd y pecynnau wedi eu symud bydd y Storfa yn cael ei chloi a'i selio.
Mr Robin Ward – Mae tair elfen o orchudd dros y gwastraff – yn gyntaf mae'r growt, yn ail y pecyn concrit ac yn drydydd yr adeilad ei hun. Mae'r lefelau tu allan i'r adeilad yn hollol ddiogel a tu allan i'r ffens derfyn byddent yn is nag ar hyn o bryd.

6.9 Cyng Tom G Ellis – Gan ei fod wedi ei storio o fewn y Storfa ni fydd ymbelydredd?
Dr Phil Sprague – ddim tu allan i'r adeilad.
Cyng J Isgoed Williams – bydd yr adeilad yn cael ei fonitro yn rheolaidd.
Dr Phil Sprague – bydd y gwastraff yn cael ei symud i'r Storfa Genedlaethol ymhen amser.

7. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng

7.1 Cadarnhaodd Mr Robin Ward ei fod wedi mynychu cyfarfod yn Wylfa ar y 17 Mawrth 2009.

7.2 Ymarferiadau Argyfwng
Nid oes newidiadau o bwys wedi bod o fewn y tim argyfwng. Mae 3 ymarfer argyfwng wedi eu cynnal ar y Safle hyd yma eleni, gyda cynlluniau ar gyfer 4 arall. Adroddodd bod yr ymarferiad lefel 1 o drefniadau argyfwng y safle ar gyfer yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear wedi ei gynnal ar 13 Mai 2008 ac yr oedd yr ymarferiad yn cael ei ystyried fel arddangosiad digonol o'r trefniadau. Bydd yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear yn mynychu ymarferiad arall sydd i'w gynnal ar yr 8 Gorffennaf 2009.

Cynhaliwyd ymarferiad diogelwch ar y 25 Mawrth 2009 ar gyfer OCNS ac fe'i ystyriwyd yn dderbyniol.

7.3 Hyfforddiant – Mae Peiriannydd Cynllunio Argyfwng llawn amser ar y Safle ac mae gobaith y bydd yn bosib trefnu hyfforddiant ar y cyd gyda'r gwasanaeth Ambiwlans a'r gwasanaeth Tân ac Achub.

7.4 Mae'r Llawlyfr Argyfwng wedi ei ddiweddaru ac wedi ei ddosbarthu i'r asiantaethau perthnasol.

7.5 Materion Cenedlaethol – Mae trefniadau wedi eu gwneud gan bob Safle Magnox are gyfer pandemig ffliw.

7.6 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng yn Wylfa ar 22 Medi 2009.

7.7 Darparwyd copïau o adroddiad y Pwyllgor Ymgynghori Cynllunio Argyfwng yn y cyfarfod ac mae copïau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth

8. Adroddiad gan Arolygydd Safle yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear

8.1 Croesawyd Mr Les Davies i'w gyfarfod cyntaf o GRhS a bu iddo adrodd fod archwiliadau ar gyfer yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear yn dderbyniol. Mae ychydig o faterion bychan angen sylw. Eglurodd bod gwaith sydd yn cael ei wneud gan y llywodraeth yn golygu y bydd newidiadau o fewn yr Arolygiaeth Safleoedd Niwclear gan y byddent yn symud o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i fod yn fudiad strategaeth.

8.2 Darparwyd copïau o'r adroddiad chwarterol yn y cyfarfod ac mae copïau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

9. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd

9.1 Bu i Mr Andrew Fairhurst nodi rhai materion allweddol yn yr adroddiad a bu iddo gadarnhau bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi mynychu arolwg o'r Cynllun Oes ym Mis Mawrth 2009 ac adroddodd eu bod yn fodlon gyda lefel y cyllid a'r rhaglen waith sydd yn mynd ymlaen ar y Safle. Bu iddynt hefyd adolygu yr awdurdodiad Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 a cafwyd hwn yn gyfredol a pherthnasol.

9.2 Yr oedd y Safle wedi gwneud cais i gynyddu terfynau gwaredu Gwastraff Lefel Isel dros dro i'r Ystorfa Gwastraff Lefel Isel ger Drigg, Cumbria. Yn dilyn ymghynghoriad cytunwyd caniatau y cynnydd dros dro o'r 1 Ebrill 2009.

9.3 Eglurodd Mr Andrew Fairhurst fod Mr Steve Howard yn cymryd ei le. Croesawyd Mr Steve Howard i'r cyfarfod a bu iddo egluro fod ganddo 38 mlynedd o brofiad o fewn y diwydiant ac hyd yma mae wedi ymweld a'r Safle 2 waith yn swyddogol. Adroddodd fod eitem o wastraff metel wedi'i anfon o'r Safle i'w ailgylchu ym mis Mai 2009. 'Roedd y gwastraff wedi cychwyn y synhwyrydd ymbelydrol ac 'roedd tim o'r safle wedi mynd i adfer y metel a'i ddychwelyd i'r Safle a'i arwahanu. Mae'r Safle yn cynnal archwiliad mewnol ond bu iddo gadarnhau nad oedd unrhyw effaith ar yr amgylchedd yn dilyn y digwyddiad.

9.4 Darparwyd copïau o'r adroddiad yn y cyfarfod ac mae copïau ychwanegol ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth.

10. Adroddiad gan yr ADN

10.1 Bu i Glenn Vaughan nodi rhai pwyntiau allweddol yn ei adroddiad ac yr oedd yn falch o gadarnhau fod Safle Trawsfynydd wedi cael blwyddyn llwyddiannus iawn gyda mynegai cost gweithrediad o 1.18 a mynegai rhaglen gweithrediad o 0.99 sydd yn golygu bod gwerth £3m mwy o waith wedi ei wneud nad oedd wedi ei nodi o fewn y cynllun.

10.2 Mae ADN yn parhau i drafod y syniad o sefydlu ymddiriedolaeth tir ac eiddo'r ADN yn Nhrawsfynydd gyda'r rhanddeiliaid lleol.

10.3 Mae prosiectau ‘Symud rhai o Gydrannau’r Prif Gylched’ ac ‘Adennill Cydrannau Egnïoledig Amrywiol’ bron a gorffen gyda’r Adennill Cydrannau Egnïoledig Amrywiol yn ffrwd gyntaf o Wastraff Lefel Canolradd i’w adennill yn y DU.

10.4 Mae Wylfa wedi cael caniatad i barhau i gynhyrchu hyd at 31 Rhagfyr 2010 ac mae cynllun busnes yn cael ei drafod am estyniad pellach.

10.5 Mae Bow Bidco Wylfa Ltd wedi ei enwi fel y cynigydd llwyddiannus ar gyfer y tir yn Wylfa.

10.6 Mae Safle Trawsfynydd wedi cael £50m o gyllid ar gyfer 2009-2010 ac mae cyllideb yr ADN yn £8.44 biliwn ar gyfer dadgomisiynu niwclear dros 2008-2011.

10.7 Ar faterion eraill mae 4 cyfarwyddwr anweithredol newydd wedi eu penodi gan yr ADN ac mae Oldbury wedi cael caniatad i ymestyn eu cyfnod cynhyrchu.

10.8 Cyng Beryl W Williams – Pan ddechreuwyd ar y gwaith dadgomisiynu yn Nhrawsfynydd bu i Maentwrog gael ei drosglwyddo i Wylfa – beth fydd yn digwydd i Maentwrog pan fydd Wylfa yn dadgomisiynu.
Mr Glenn Vaughan – Mae’n debygol y bydd ei sefyllfa yn newid ond nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd.

11. <u>Unrhyw fater arall</u>

11.1 Bu i’r Cadeirydd ymestyn croeso i Ms Deborah Ward o’r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear a bu iddi egluro ei bod yn cymryd lle Mr Richard Flynn a hwn oedd ei chyfarfod cyntaf o GRhS.

11.2 Bu i’r Cadeirydd hefyd ymestyn croeso i Mr Dan Gould a bu iddo yntau egluro mai hwn oedd ei gyfarfod cyntaf o GRhS yn Nhrawsfynydd a bu iddo gadarnhau y bydd yn sicrhau bod y GRhS yn cael cyhoeddusrwydd.

11.3 Dywedodd Elfyn Llwyd bod y gwaith sydd yn mynd ymlaen ar y Safle wedi creu agraff dda arno, hefyd bu iddo ddiolch am y rhodd o £50,000 tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol i’w chynnal yn Bala ym mis Awst 2009.

11.4 Cyng Tom G Ellis – Hoffwn gael cadarnhad bod lefel y llyn yn cael ei gadw i fyny ar gyfer yr haf.
Andy McAteer – Nid yw yn bosib i mi roi sicrwydd y bydd ar y lefel y mae heddiw a bydd ar ei lefel isaf mewn 2 wythnos ond gallaf gadarnhau bod Trawsfynydd yn monitro’r llyn yn rheolaidd.
Robin Ward – Gallaf gadarnhau bod y llyn yn cael ei fonitro yn rheolaidd a bydd monitro ychwanegol yn cael ei wneud os bydd angen. Hefyd mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei fonitro yn annibynol.

11.5 Cllr Tom G Ellis – Mae gennyf bryderon fod y Caesium 137 sydd yn y mawn yn cael ei chwythu gan y gwynt.
Robin Ward – mae’r monitro yn sicrhau bod y lefelau o fewn y terfynau ac mae’r lefelau yn is nag yr oeddynt yn y 1980’au.

11.6 Cadarnhawyd bod ymweliad wedi ei drefnu i’r Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd i gychwyn o’r Ganolfan Gynadleddau a Chynefino am 10 o’r gloch y bore dydd Mercher 10 Mehefin. Bydd dillad diogelwch ar gael ond bydd angen gwybod maint esgidiau pawb. Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn holl bwysig bod yr aelodau yn derbyn y gwahoddiad i weld y Storfa fel eu bod yn gweld dros ei hunain bod y gwastraff yn cael ei gadw yn ddiogel, felly byddent mewn sefyllfa i adrodd yn ol i’w mudiadau.

11.7 Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oes angen newid cyfansoddiad GRhS Trawsfynydd gan bod y canllawiau cywir wedi eu gosod ers y dechrau.

12. <u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>

Y cyfarfod nesaf yw gynnal dydd Llun 7 Rhagfyr 2009 am 11.00 o'r gloch yng Nghanolfan Gynadleddau a Chynefino Safle Trawsfynydd.